Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Penodi Aelod

Dyddiad Cau: 4 Ionawr 2019

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl yr Aelod

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Atodiad C: Y broses ddethol

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn swydd o fod yn aelod y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Bydd yr aelod newydd yn cyfrannu at gyfrifoldebau cyffredinol y Pwyllgor i roi cyngor i Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-38a79071e125/candidate/jobboard/vacancy/7/adv.

I ymgeisio am y rôl, cliciwch ar swydd wag Cadeirydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael ichi ei llenwi. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba gwestiwn a restrir isod. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol. Dylai hefyd gynnwys manylion aelodaeth ac unrhyw bwyllgorau cysylltiedig neu fyrddau neu sefydliadau neu gyrff perthnasol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	4 Ionawr 2019
Llunio rhestr fer:	w/c 21 Ionawr 2019

Noder mai ar y dyddiadau uchod fydd y sifft yn cael ei gynnal. Fel yr eglurwyd yn y ddogfen Gwybodaeth i Ymgeiswyr, nid ydym yn bwriadu cynnal cyfweliadau ar gyfer y penodiadau hyn, ond byddant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r panel wedi ystyried eich cais.

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Positif ynghylch Anabledd
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Er nad ydym yn bwriadu cynnal cyfweliadau ar gyfer y swyddi hyn, anogir pobl sydd ag anableddau i wneud cais i fod yn aelodau y Pwyllgor.

Cysylltiadau:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a rôl yr aelodau, cysylltwch â Angela Byrne/Richard Williams:

Ffôn: 03000 628692
E-bost: FloodCoastalRisk@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost at penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i https://beta.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus.

Atodiad A

Penodi Aelod y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd disgwyl i aelodau:

- Bod yn bresennol a chymryd rôl weithredol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau; bydd disgwyl i aelodau fynd i ddau neu dri cyfarfod o'r pwyllgor bob blwyddyn a gweithredu camau sy'n codi;
- Delio gyda gwaith papur a materion sy'n gysylltiedig â gwaith y Pwyllgor;
- Bod yn bresennol ac/neu gadeirio cyfarfodydd yr is-bwyllgor neu gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid;
- Cyfrannu at unrhyw adroddiadau neu ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu ar ran y Pwyllgor, fel y bo angen.

Manyleb y person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Meini Prawf Hanfodol

Arbenigedd

1. Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad da o rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid y maes llifogydd ac erydu arfordirol a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol.
2. Arbenigedd o fewn ac ym maes rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (FCERM). Gallai hyn gynnwys:

- Arbenigedd technegol megis peirianneg, cynllunio, GIS;
- Rheoli arfordirol ac amgylcheddol;
- Ymateb gweithredol i lifogydd neu cynorthwyo gydag adfer wedi llifogydd;
- Profiad academaidd neu FCERM ehangach.

Sgiliau ac Ymddygiad

1. Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da gan gynnwys dangos gallu i drafod gyda rhanddeiliaid a chyfrannu at, a dylanwadu ar gyfarfodydd o'r pwyllgor;
2. Dangos gallu i ddadansoddi, trafod a chyfathrebu am faterion sy'n gysylltiedig â llifogydd gydag arbenigwyr a'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr, a gweld y darlun mwy ledled Cymru;
3. Deall materion amrywiaeth.

Maen Prawf Dymunol

Gan bod gan y Pwyllgor fwriad i gynnwys trawsdoriad eang o safbwyntiau a phrofiadau ni fydd yn hanfodol i fodlioni pob un o'r meini prawf dymunol.

Gwybodaeth a Phrofiad

1. Gwybodaeth o gyllid a mecanweithiau Llywodraeth Cymru;
2. Deall y cyfleoedd posibl i fuddsoddi y tu allan i gyllid y Llywodraeth.
3. Deall Cynlluniau Rheoli Traethlin wrth reoli risg arfordirol.
4. Dealltwriaeth o reoli risg llifogydd naturiol.

Sgiliau

1. Y gallu i ddadansoddi data ac ymchwil i lywio argymhellion.
2. Gallu paratoi adroddiadau.

Y Gymraeg

Bydd y Pwyllgor, yn cynnwys y Cadeirydd ac 14 o aelodau, yn cynnwys aelodau sydd wedi'u penodi a'u henwebu. Rydym angen o leiaf 3 siaradwr Cymraeg ar y Pwyllgor, trwy eu henwebu gan sefydliad perthnasol neu eu penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Y cyfarfodydd i gael eu cynnal mewn amrywiol leoliadau ledled Cymru.
Ymrwymiad Amser:	Disgwyliwn 2-3 chyfarfod craidd y flwyddyn a chynhelir cyfarfodydd yr is-bwyllgorau fel y gwêl y Pwyllgor yn dda.
Hyd y penodiad:	Penodiad o 3 blynedd i ddechrau.
Cyflog:	Di-dal, ond mae gan Aelodau hawl i gael eu had-dalu ar gyfer costau teithio a chostau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn aelod o'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Bwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Cewch weld y ddogfen hon ar:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Cefndir

Mae Adran 81(1) Deddf yr Amgylchedd 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (y Pwyllgor).

Swyddogaeth y Pwyllgor

Pwrpas y Pwyllgor yw cynghori Gweinidogion Cymru ar bob mater sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a pharatoi a chryfhau cymunedau i allu gwrthsefyll llifogydd. Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyngor arbenigol ar gyfeiriad strategol gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, gan weithio'n glos ag Awdurdodau Rheoli Risg a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rhagweld y bydd y Pwyllgor yn creu ei rhaglen ei hun o weithgarwch cynghori a allai adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol tymor byr yn ogystal â rhai tymor hir, gan gynnwys ymateb i ymgynghoriadau, nodi anghenion ymchwil a thynnu sylw at yr arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol o dan gadeiryddiaeth Huw Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Dŵr a Llifogydd, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Martin Buckle, Cadeirydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a Libby Watkins fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn iddo gael ei roi i'r panel i lunio rhestr fer. Dylech gofio, yn yr achos hwn, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel dethol cyfan.

Cofiwch nad ydym yn bwriadu cynnal cyfweliadau ar gyfer y penodiadau hyn, fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r panel yn dilyn ystyried eich cais yn ystod y broses o lunio rhestr fer.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n aelod o'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a fydd hefyd yn cadarnhau'r amodau y caiff eich penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion ynghylch pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cais.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Penodiadai Cyhoeddus a penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.